awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

EIN HYMRWYMIADAU AMGYLCHEDDOL A CHYNALIADWYEDD

OUR ENVIRONMENTAL AND SUSTAINABILITY COMMITMENTS

CYFLWYNIAD

Mae Awen yn elusen sy'n gweithio ar draws ystod eang o weithrediadau, o lyfrgelloedd i barc gwledig ac o wasanaethau hyfforddi i bobl ag anableddau dysgu i theatrau. Mae ein is-gwmni masnachu yn cynnal lleoliad priodas. Rydym yn cyflogi dros 200 o bobl ac yn darparu cyfleoedd i ddwsinau o wirfoddolwyr yn ein pymtheg safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent.

Mae Awen yn cydnabod bod ei holl weithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd a byddwn yn gweithredu gweithdrefnau i ddarparu amgylchedd iach lle bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o blaned lanach, fwy cydnerth sy'n cael ei deall yn well. Ein nod yw lleihau'r effeithiau negyddol sydd gennym ond hefyd mynd ar drywydd camau gweithredu a fydd yn cynhyrchu manteision cadarnhaol i'r amgylchedd.

Rydym wedi ymrwymo i'r rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn cofleidio egwyddorion datblygu cynaliadwy a bod yn ddoeth wrth ddefnyddio adnoddau naturiol ar draws ein gwasanaethau. Byddwn yn parhau i wella sut rydym yn rheoli ein hadeiladau, ein mannau a'n gweithgareddau, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a lleihau ein hôl troed carbon.

Mae Awen yn cydnabod yr Argyfwng Newid Hinsawdd a bydd yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i leihau ei effeithiau yn yr hyn y gallwn ddylanwadu arno. Fel y sefydliad sy'n gyfrifol am reoli a datblygu Parc Gwledig Bryngarw, safle 113 erw o goetir, dolydd a gerddi ffurfiol, mae gan Awen gyfrifoldeb penodol i fod yn esiampl o arferion amgylcheddol da.



INTRODUCTION

Awen is a charity that works across a wide range of operations, from libraries to a country park and from training services for people with learning disabilities to theatres. Our trading subsidiary runs a wedding venue. We employ over 200 people and provide opportunities for dozens of volunteers at our fifteen sites in Bridgend, Rhondda Cynon Taf and Blaenau Gwent.

Awen recognises that all its activities have an impact on the environment and we will implement procedures to provide a healthy environment where future generations will benefit from a cleaner, more resilient and better understood planet. We aim to reduce the negative impacts we have but also to pursue actions that will produce positive benefits for the environment.

We are committed to both the legal and moral obligations to protect and improve the environment for future generations. We embrace the principles of sustainable development and of using natural resources prudently across our services. We will constantly improve how we manage our buildings, spaces and activities, to increase efficiencies and minimise our carbon footprint.

Awen recognises the Climate Change Emergency and will implement policies and procedures to reduce its effects in our sphere of influence. As the organisation responsible for the management and development of Bryngarw Country Park, a 113-acre site of woodland, meadow and formal gardens, Awen has a specific responsibility to be a beacon of good environmental practice.



ALINIO Â STRATEGAETH AWEN 2025-30

Nod Awen yw creu lleoedd a phrofiadau sy'n rhoi ymdeimlad o bwrpas, hunaniaeth, mynegiant i bobl, ac - yn bennaf oll - ymdeimlad o berthyn.

Mae strategaeth Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen 2025-30 yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud ar draws ystod o themâu, gan gynnwys yr amgylchedd:

- Byddwn yn dilyn ein hagenda datgarboneiddio. Eisoes, mae ein trydan wedi ei brynu o ffynonellau adnewyddadwy, ond byddwn yn cynyddu ein canran o hunan-gynhyrchu ynni adnewyddadwy i 20% o'n defnydd blynyddol erbyn 2030.
- Byddwn yn targedu gostyngiad o 30% mewn dibyniaeth ar danwydd ffosil erbyn 2030 o'i gymharu â'n ffigur defnydd yn 2023.
- Erbyn 2030 bydd ein holl gerbydau yn cael eu pweru gan danwydd trydan neu danwydd amgen nad yw'n ffosil.
- Byddwn o leiaf yn cadw ein hardystiad Lefel 2 y Ddraig Werdd ac yn ymrwymo i adrodd blynyddol ar ein hallyriadau carbon.
- Bydd Parc Gwledig Bryngarw yn cael ei ystyried yn safle enghreifftiol ar gyfer treftadaeth naturiol a phrofiad ymwelwyr, drwy gadw ein hachrediad Baner Werdd a Chynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr Croeso Cymru yn flynyddol.

ALIGNMENT WITH AWEN'S STRATEGY 2025-30

Awen's goal is to create places and experiences that give people a sense of purpose, identity, expression, and - most of all - a sense of belonging.

Awen Cultural Trust's strategy 2025-30 outlines what we will do across a range of themes, including the environment:

- We will pursue our decarbonisation agenda. Already, our purchased electricity is from renewable sources, but we will increase our percentage of self-generated renewable energy to 20% of our annual consumption by 2030.
- We will target a 30% reduction in fossil fuel reliance by 2030 compared to our 2023 consumption figure.
- By 2030 all of our vehicles will be powered by electric or alternative non-fossilbased fuels.
- As a minimum, we will retain our Green Dragon Level 2 certification and commit to the annual reporting of our carbon emissions.
- Bryngarw Country Park will be considered an exemplar site for natural heritage and visitor experience, by annually retaining our Green Flag and Visit Wales VAQAS accreditation.

EIN HYMRWYMIADAU

Mae Awen wedi ymrwymo i leihau'r effeithiau negyddol y mae'n eu cael fel busnes ar yr amgylchedd ac i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol. Byddwn yn mynd ymhellach trwy fod a'r nod o fynd ar drywydd camau gweithredu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Byddwn yn:

CYFFREDINOL

- Arsylwi a chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol bresennol a rhwymedigaethau cydymffurfio eraill fel safon sylfaenol a cheisio cyflawni'r gofynion cyfredol lle bo'n ymarferol.
- Ystyried ein camau gweithredu yng nghyd-destun deddfwriaeth berthnasol arall a allai effeithio ar ein hymddygiad amgylcheddol, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Nodi agweddau amgylcheddol allweddol sy'n deillio o'n gweithgarwch gweithredol, asesu difrifoldeb yr agweddau a nodi mesurau rheoli.
- Alinio ein camau gweithredu amgylcheddol â rhai ein rhanddeiliaid fel cynghorau partner, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Defnyddio adnoddau treuliadwy yn ofalus ac yn effeithlon.
- Hyrwyddo ac annog ymwybyddiaeth a dealltwriaeth amgylcheddol ymhlith staff, cyflenwyr, contractwyr a phartneriaid.
- Darparu cyfleoedd i bobl greadigol fynd i'r afael â materion yr amgylchedd, newid hinsawdd a chyrraedd Sero Net o ran carbon trwy gomisiynu a rhaglennu gweithgareddau, drama a ffurfiau celf eraill.
- Disgwyl i'r holl staff helpu Awen i gyflawni ei nod o fod yn sefydliad amgylcheddol cyfrifol wrth gyflawni eu dyletswyddau o ddydd i ddydd.
- Annog gwirfoddolwyr i fod yn ymwybodol o'r amgylchedd ac yn gyfrifol.
- Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd yn cael eu hystyried wrth gaffael cyflenwadau a gwasanaethau.
- Ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd ym mhob gwaith adnewyddu a phrosiectau adeiladu.
- Gosod amcanion ffurfiol o fewn y broses gynllunio busnes, i adolygu a gwella perfformiad amgylcheddol yn barhaus ar draws ein gweithgareddau.
- Comisiynu adolygiadau allanol o gynnydd, gweithdrefnau, amcanion a thargedau Awen yn achlysurol i wella perfformiad amgylcheddol.
- Buddsoddi'n foesegol yn ôl ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

OUR COMMITMENTS

Awen is committed to reducing the negative impacts it has as a business on the environment and to comply with environmental legislation. We will go further by aiming to pursue actions that will have a positive impact on the environment. We will:

GENERAL

- Observe and comply with existing environmental legislation and other compliance obligations as a minimum standard and seek to out-perform current requirements where practical.
- Consider our actions in the context of other relevant legislation that may impact our environmental behaviour, such as the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015.
- Identify key environmental aspects resulting from our operational activity, assess the severity of the aspects and identify control measures.
- Align our environmental actions with those of our stakeholders such as partner councils, Welsh Government and the Arts Council of Wales.
- Use consumable resources carefully and efficiently.
- Promote and encourage environmental awareness and understanding among staff, suppliers, contractors and partners.
- Provide opportunities for creatives to address the issues of the environment, climate change and carbon Net Zero through the commissioning and programming of activities, drama and other art forms.
- Expect all staff to help Awen to carry out its aim of being an environmentally responsible organisation in how they carry out their day-to-day duties.
- Encourage volunteers to be environmentally aware and responsible.
- Ensure sustainability principles are considered within the procurement of supplies and services.
- Embed environmental considerations and sustainability into all refurbishments and building projects.
- Set formal objectives within the business planning process, to review and continually improve environmental performance across our activities
- Commission periodic external reviews of Awen's progress, procedures, objectives and targets to improve environmental performance.
- Invest ethically according to Environmental, Social and Governance (ESG) considerations.

YNNI A CHYFLEUSTODAU

- Paratoi a diweddaru cynllun arbed ynni yn flynyddol a fydd yn amlinellu blaenoriaethau Awen ar gyfer lleihau a chynhyrchu ynni.
- Lleihau ein defnydd o ynni trwy fesurau fel mwy o reoli ynni, gwelliannau goddefol, gwelliannau offer a chynhyrchu ein ynni adnewyddadwy ein hunain.
- Parhau i brynu trydan sy'n 100% adnewyddadwy.
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni sefyllfa Sero Net o ran carbon erbyn 2050.
- Arbed dŵr trwy archwilio dulliau fel plymio sy'n effeithlon o ran dŵr a chynaeafu dŵr glaw.

TRAFNIDIAETH A THEITHIO

- Lleihau'r defnydd o drafnidiaeth a mynd ar drywydd atebion carbon isel lle nad yw hyn yn bosibl.
- Hyrwyddo teithio llesol i staff ac ymwelwyr.

GWASTRAFF A LLYGREDD

- Cymhwyso'r Hierarchaeth Gwastraff ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus sy'n cael ei gynhyrchu ar draws ein holl safleoedd, yn unol â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, gan flaenoriaethu atal gwastraff.
- Creu llai o wastraff trwy fabwysiadu cynlluniau lleihau gwastraff ac ailgylchu.
- Lleihau dibyniaeth ar eitemau untro, yn enwedig plastigau.
- Lleihau'r defnydd o bapur.
- Cynnal Cynllun Atal Llygredd.
- Adrodd ac ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau llygredd, gyda chamau cywiro ar waith.

ARLWYO

- Lleihau milltiroedd bwyd trwy roi blaenoriaeth i gynhyrchwyr lleol ac ystyried opsiynau Masnach Deg ac organig lle bo hynny'n bosibl.
- Datblygu bwydlenni ar gyfer ein caffis a'n lleoliad priodas sy'n cynnwys cynnyrch lleol a thymhorol ac sy'n cynnig opsiynau sy'n seiliedig ar blanhigion.
- Gweithredu mesurau i leihau gwastraff bwyd ac i ailddefnyddio'r bwyd sy'n weddill neu ei ailgylchu'n gywir.



ENERGY AND UTILITIES

- Prepare and update annually an energy-saving plan which will outline Awen's priorities for energy reduction and generation.
- Reduce our energy consumption through measures such as increased energy management, passive improvements, plant improvements and generating our own renewable energy.
- Continue to purchase 100% renewable electricity.
- Work with our partners to achieve a Net Zero carbon position by 2050.
- Save water by exploring methods such as water-efficient plumbing and rainwater harvesting.

TRANSPORT AND TRAVEL

- Minimise use of transport and pursue low-carbon solutions where this is not possible
- Promote active travel to staff and visitors.

WASTE AND POLLUTION

- Apply the Waste Hierarchy for non-hazardous waste that is generated across all our sites, according to the Waste (England and Wales) Regulations 2011, prioritising preventing waste.
- Create less waste via the adoption of waste reduction and recycling schemes.
- Reduce reliance on single-use items, especially plastics.
- Minimise paper usage.
- Maintain a Pollution Prevention Plan.
- Report and investigate any pollution incidents, with corrective actions put in place.

CATERING

- Minimise food miles by giving priority to local producers whilst also considering Fairtrade and organic options where possible.
- Develop menus for our cafes and wedding venue that feature local and seasonal produce and that offer plant-based options.
- Implement measures to reduce food waste and to reuse or correctly recycle what remains.

BRYNGARW

- Datblygu safle Bryngarw gyda chynaliadwyedd, bioamrywiaeth a'r amgylchedd wrth ei galon.
- Gwahaniaethu'r busnes priodas oddi wrth ei gystadleuwyr drwy ganolbwyntio ar fanteision amgylcheddol dewis priodas ym Mryngarw.
- Sicrhau bod pob agwedd ar ein cynnig priodas yn cael ei asesu'n drylwyr o ran ei gymwysterau amgylcheddol.
- Cynnal statws y Faner Werdd ar gyfer Parc Gwledig Bryngarw.
- Hyrwyddo cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a mesurau argyfwng hinsawdd drwy ein rhaglen addysg ym Mharc Gwledig Bryngarw ac mewn mannau eraill yn Awen.
- Creu coetir rhagorol ym Mryngarw fel rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru.
- Tyfu cynnyrch ym mhrosiect B-Leaf y gellir ei ddefnyddio mewn bwydlenni yng nghaffi a lleoliad priodas Bryngarw.
- Cynyddu lefel y compostio yn B-Leaf er mwyn lleihau'r angen i brynu gwrteithiau a chompostiau masnachol.
- Sicrhau bod yr holl gompost rydyn ni'n ei ddefnyddio neu'n ei werthu yn B-Leaf ddim yn cynnwys mawn.



ADOLYGU A GWELLIANT PARHAUS



Mae Awen wedi ymrwymo i wella ein rheolaeth a'n perfformiad amgylcheddol yn barhaus trwy adolygu'r gofrestr Agweddau Amgylcheddol, cynllun atal llygredd, ac ymrwymiadau amgylcheddol eraill yr ydym wedi'u nodi yn rheolaidd lle mae ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn flynyddol ac yn cael ei adolygu yn ôl yr angen.

BRYNGARW

- Develop the Bryngarw site with sustainability, biodiversity and the environment at its heart.
- Differentiate the wedding business from its competitors by focusing on the environmental benefits of choosing a wedding at Bryngarw.
- Ensure that every aspect of our wedding offer is rigorously assessed in terms of its environmental credentials.
- Maintain Green Flag status for Bryngarw Country Park.
- Promote sustainability, biodiversity and climate emergency measures through our education programme at Bryngarw Country Park and elsewhere within Awen.
- Create an exemplary woodland at Bryngarw as part of the National Forest for Wales.
- Grow produce B-Leaf project that can be used in menus at the Bryngarw café and wedding venue.
- Increase the level of composting at B-Leaf to reduce the need to purchase proprietary fertilisers and composts.
- Ensure all compost we use or sell at B-Leaf is peat-free.

REVIEW AND CONTINUAL IMPROVEMENT



Awen is committed to continually improving our environmental management and performance by regularly reviewing the Environmental Aspects register, pollution prevention plan, and other environmental commitments we have identified where our activities have an impact on the environment. A review will be carried out on an annual basis and revised as necessary.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.